HEDDLU SIFIL NIWCLEAR

Mae'r Heddlu Sifil Niwclear yn edrych ar ôl yr Orsaf Bŵer yma yn yr Wylfa. Gellwch ein gweld ni o amgylch yr ardal hon yn ein cerbydau ac ar droed. Mae gennym ni fathodyn arbennig ar ein capiau. Cafodd hwn ei seilio ar y GRIFFIN.

Cafodd y Griffin ei ddewis ar gyfer ein bathodyn am:

- **ei fod yn anifail herodrol oedd yn cael ei beintio ar dariannau marchogion ac am ei fod ar arfbeisiau**
- **mae'n cynrychioli cryfder, bod yn effro i beryglon, bod yn nerthol ac yn gyfiawn**
- **mae'n enwog am fod yn wyliadwrus, yn ffyddlon, yn osgeiddig,yn gyflym, yn anferth fel bwystfil ac yn ddwyfol**
- **mae corff y llew yn dangos grym ar y Ddaear**
- **mae adenydd yr eryr yn dangos grym yn yr awyr uwchben**
- **mae'r Griffin hefyd yn gwarchod trysor, pethau gwerthfawr a brenhinoedd. Mae ein Griffin ni yn sefyll ar ei goesau ôl ac felly mae'n barod i gyfarfod ei elynion.**